| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **8 Mehefin 2023** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Barry Mellor (Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant) / Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Nicola Kneale (Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro, Strategaeth a Pherfformiad, Prosiectau, Newid Hinsawdd)** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Helen Vaughan-Evans (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd)** |
| **Teitl** | **Adolygu ac Adfywio Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22–2029/30)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Cynghori o ran craffu'r adolygiad ac adfywio Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a gynhelir yn ystod 2023/24.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhannu a cheisio cefnogaeth ar gyfer y broses a gynhelir ac amserlenni disgwyliedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 cyflwyno sylwadau ar gychwyn y broses o adolygu ac adfywio Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a gynhelir yn ystod 2023/24; a

3.2 cefnogi'r dull o adolygu'r Strategaeth a mabwysiadu Strategaeth wedi ei hadfywio yn gynnar yn 2024.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cafodd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22-2029/30) ei mabwysiadu yn Chwefror 2021 yn dilyn datgan Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol gan y Cyngor yng Ngorffennaf 2019. Mae'r strategaeth lawn ar gael yma.

4.2 Bydd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22–2029/30) yn cael ei adolygu a'i hadfywio bob 3 mlynedd. Mae'r adolygiad ac adfywiad swyddogol cyntaf o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn ystod 2023/24. Nid yw gweithrediad y Strategaeth yn dod i stop tra cynhelir yr adolygiad; mae gwaith yn parhau ar gyflymder sy'n cyd-fynd â'r adolygiad i gyflawni Cyngor Di-garbon Net sy'n Ecolegol Gadarnhaol a gostyngiad mewn allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

4.3 Bydd yr adolygu a'r adfywio'n golygu gwerthuso:

a) cwmpas y strategaeth gyfredol.
b) y llwybrau targed i gyflawni targedau 2030 o Gyngor Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol.
c) y camau gweithredu o fewn y strategaeth - beth sydd angen ei newid a beth sydd angen ei ychwanegu.
d) mesurau llwyddiant - a oes angen ychwanegu neu newid unrhyw rai.
e) y wybodaeth a ddarperir am gyllid, llywodraethu, gweithio mewn partneriaeth a rhannu dysgu.

4.4 Bydd y strategaeth yn cael ei diweddaru ac ychwanegir ati mewn ymgynghoriad ag eraill. Trefnir yr ymgysylltu canlynol:

a) Arolwg ar-lein yng ngwanwyn 2023 ar agor i'r cyhoedd, cynghorwyr a staff i roi eu barn ar beth maent yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi am y strategaeth gyfredol a beth hoffent weld y strategaeth yn ei drin. Hyrwyddo'r arolwg gyda Chynghorau Ysgol.

b) Asesiad annibynnol ar yrwyr ariannol, cyfreithiol a rheolaethol sy’n berthnasol i’r strategaeth, y cyfleoedd i’w dilyn, y risgiau i’w rheoli, y bylchau i’w trin, ac unrhyw newid sydd ei angen o’r dull cyfredol.
c) Ymgysylltu â chynghorwyr trwy ail-sefydlu’r gweithgor gwleidyddol Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol trawsbleidiol a chwrdd hyd at 3 gwaith yn ystod 2023/24 i gyfrannu at yr adolygiad hwn.
d) Ymgysylltu â Staff y Cyngor ym Mehefin.
e) Ymgysylltu â bob pennaeth Gwasanaeth ac uwch dimau rheoli ynghyd â staff personél gwasanaeth allweddol trwy weithdai dros yr haf.
f) Gweithdy gyda grwpiau budd amgylcheddol allanol dros yr haf.
g) Diweddariadau i Sesiynau Briffio’r Cabinet a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth trwy gydol y broses.
h) Ymgysylltu â’r Bwrdd Cyllideb/Grŵp Craffu Cyfalaf yn yr Hydref.
i) Arolwg ar-lein yn yr Hydref/Gaeaf 2023 ar agor i’r cyhoedd, cynghorwyr a staff i roi eu barn ar ddrafft terfynol y strategaeth wedi ei hadfywio. Hyrwyddo’r arolwg gyda Chynghorau Ysgol.
j) Ymgysylltu â’r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar y strategaeth cyn ei chyflwyno i’r Cabinet a’r Cyngor i’w mabwysiadu ddechrau 2024.

4.5 Y bwriad yw i’r strategaeth gael ei mabwysiadu gan y Cyngor yn Chwefror/Mawrth 2024 i fwydo i’r Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2024/25. Bwriedir i’r strategaeth gael ei chyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Perfformiad cyn ei chymryd i’r Cabinet a’r Cyngor.

4.6 Bydd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd yn gweithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol trwy gydol yr amser i sicrhau amseru a chyfathrebu mewnol ac allanol priodol yn ystod adolygiad y strategaeth.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae sicrhau fod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn cael ei chefnogi yn allweddol i gefnogi datganiad Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol y Cyngor (2019) a oedd yn ymrwymo’r Cyngor i ddod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych. Mae adfywio’r targedau, llwybrau cyrhaeddiad a gweithgareddau yn rheolaidd yn helpu i gynnal y canolbwynt a'r dyhead sydd eu

hangen i gyflawni'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021-2030 a fabwysiadwyd, trwy gefnogi'r gostyngiad mewn allyriadau carbon, cynnydd mewn dal carbon a gwella cyfoeth rhywogaethau ein tir er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei nod 2030 o fod yn Ddi-garbon Net, Ecolegol Gadarnhaol a gostyngiad o 35% mewn allyriadau cadwyn gyflenwi.

5.2 Trwy gwblhau'r gweithgareddau yn y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021-2030 bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y themâu canlynol yn y Cynllun Corfforaethol 2022 - 2027: Sir Ddinbych sy'n fwy gwyrdd a Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau'n codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Gellir cynnal yr adolygiad o fewn adnoddau staff ac ariannol sy'n bodoli.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Nid oedd eu hangen ar gyfer y papur hwn. Mae Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y Strategaeth Hinsawdd ac Ecolegol ar gael ar gais. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni'r Strategaeth a ddiweddarwyd yn ystod 2023/24 a cyn i'r strategaeth fynd i Craffu, Cabinet a'r Cyngor i'w mabwysiadu.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae proses yr adolygiad ac adfywio'r strategaeth wedi ei thrafod gyda'r Arweinydd, Aelod Arweiniol, Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, Tîm y Prif Weithredwr, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gweithredol Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

8.2 Trafodwyd yr angen ar gyfer cynnwys Aelodau yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mawrth, a chefnogwyd yr argymhelliad i ail-sefydlu'r gweithgor trawsbleidiol Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn Ebrill.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych wedi golygu buddsoddiad ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diweddar a bydd yn parhau i fod angen buddsoddiad wrth fynd ymlaen. Fodd bynnag, gallai'r pwysau ariannol mae'r Cyngor nawr yn eu hwynebu effeithio ar y cyllid sydd ar gael dros y blynyddoedd nesaf. Er y gellir cynnwys yr adolygiad ei hun o fewn adnoddau sy'n bodoli, mae'n bwysig fod y rhaglen yn parhau i weithio trwy gydol prosesau gosod cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor pan ganfyddir gofynion adnoddau ychwanegol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes yna unrhyw risgiau ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Mae Adran 7.4.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu swyddogaeth Craffu mewn perthynas ag adolygu a datblygu polisïau.